**Aberystwyth University**

# ARFOR, allfudo a’r Gymraeg

Lewis, Huw; Cunnington Wynn, Lowri

*Publication date:*
2024

*Citation for published version (APA):*
Lewis, H., & Cunnington Wynn, L. (2024). ARFOR, allfudo a’r Gymraeg: Gwersi o ymchwil cyfoes ym maes allfudo i gefnogi gwaith rhaglen ARFOR II. Centre for Welsh Politics and Society.

**General rights**
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the Aberystwyth Research Portal (the Institutional Repository) are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

• Users may download and print one copy of any publication from the Aberystwyth Research Portal for the purpose of private study or research.
• You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
• You may freely distribute the URL identifying the publication in the Aberystwyth Research Portal

**Take down policy**
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

tel: +44 1970 62 2400
email: is@aber.ac.uk

Download date: 19. May. 2024

Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru
Centre for Welsh Politics and Society

# Adroddiad Briffio

# ARFOR, allfudo a'r Gymraeg:

Gwersi o ymchwil cyfoes ym maes allfudo
i gefnogi gwaith rhaglen ARFOR II

Paratowyd gan Huw Lewis a Lowri Cunnington Wynn

Ionawr 2024

ARFOR
CREU GWAITH – CEFNOGI'R IAITH

wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

# Cynnwys


Crynodeb ac argymhellion 3

1. Cyflwyniad 5
2. Deall allfudo a mudo dychweliadol: ystyriaethau cyffredinol 6
3. Tystiolaeth o agweddau pobl ifanc ynglŷn â bywyd yng nghefn gwlad Cymru 7
4. Creu teipolegau o agweddau pobl ifanc o Gymru ynglŷn â mudo 9
5. Ffactorau sy'n cymell allfudo 10
6. Ffactorau sy'n dylanwadu ar fudo dychweliadol 12
7. Deall cymhellion y sawl sy'n 'aros' 14
8. Llyfryddiaeth ddethol 16

Atodiad: Rhaglenni y gweithdai 17


**Dylid cyfeirnodi'r adroddiad hwn fel a ganlyn:**

Huw Lewis a Lowri Cunnington Wynn (2024) *ARFOR, allfudo a'r Gymraeg: gwersi o ymchwil cyfoes i gefnogi gwaith rhaglen ARFOR II*.

## Crynodeb ac argymhellion

- Bwriad yr adroddiad hwn yw crynhoi prif gasgliadau dau weithdy ymchwil ar bwnc allfudo a gynhaliwyd yn ystod mis Tachwedd 2023. Trefnwyd y gweithdai gan Ganolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth a chwmni ymchwil Wavehill, a hynny fel rhan o raglen waith tendr ymchwil 18 mis sydd â'r nod o adolygu a gwerthuso gwaith rhaglen ARFOR II.

- **Deall a dehongli tueddiadau mudo trwy ddefnyddio modelau cwrs bywyd (tt. 6-7):** Bu tuedd mewn ymchwil academaidd i ddefnyddio modelau cwrs bywyd er mwyn deall a dehongli penderfyniadau mudo gwahanol unigolion, er enghraifft penderfyniadau i allfudo o ardaloedd gwledig neu benderfyniadau i ddychwelyd maes o law. Dylid hefyd ystyried sut gellir gwneud defnydd pellach o fodelau fel hyn i gefnogi a mireinio ymyraethau polisi sy'n ceisio ymateb i allfudo. Mae modelau cwrs bywyd yn helpu i amlygu'r gwahanol gyfnodau sy'n nodweddu bywyd unigolion (plentyndod, oedolyn ifanc, canol oed, ymddeol), y gwahanol benderfyniadau bywyd a wynebir yn ystod y cyfnodau hyn a'r modd y mae penderfyniadau ynglŷn â ble rydym yn dewis byw yn debygol o godi ar rai adegau allweddol.

- **Agweddau siaradwyr Cymraeg ifanc tuag at fywyd yng nghefn gwlad Cymru (tt. 7-8):** Mae gwaith ymchwil diweddar, sydd yn cael ei drafod ymhellach yn y ddogfen hon, wedi awgrymu bod siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn tueddu i fod yn fwy cadarnhaol na Chymry ifanc eraill ynglŷn â bywyd yn mewn ardal wledig, a'u bod yn fwy tebygol o fod eisiau parhau i fyw yn eu hardal leol, neu ddychwelyd yno petaent yn symud i ffwrdd. Fodd bynnag, mae'r ymchwil hwn hefyd yn awgrymu bod y mwyafrif o siaradwyr Cymraeg ifanc yn tybio y bydd angen iddynt symud o'u hardal leol i gael gwaith cyflogedig, addysg neu rywle i fyw, gyda thraean ohonynt yn rhagweld y byddant yn symud tu allan i Gymru yn ystod y pum mlynedd nesaf.

- **Creu teipolegau o agweddau pobl ifanc o Gymru ynglŷn â mudo (tt. 9-10):** Dylid edrych am ffyrdd i rannu pobl ifanc o Gymru yn gategorïau gwahanol ar sail eu hagweddau neu ddisgwyliadau ynghylch mudo a dylid defnyddio'r teipolegau hyn er mwyn mireinio ymyraethau polisi sy'n ceisio ymateb i allfudo. Mae gwaith ymchwil diweddar yng Nghymru yn cynnig teipolegau posib y gellid ei defnyddio er mwyn cefnogi'r gwaith hwn. Byddai defnyddio'r teipolegau hyn yn helpu i amlygu'r *gwahanol* fathau o grwpiau sydd angen eu hystyried (e.e. arhoswyr, ymadawyr, dychwelwyr) a'r graddau y dylai ymyraethau anelu at flaenoriaethu rhai ohonynt.

- **Ffactorau sy'n cymell allfudo (tt. 10-11):**Mae ymchwil academaidd yng Nghymru ac yn rhyngwladol yn pwysleisio bod allfudo gwledig ymhlith pobl ifanc yn ffenomen sy'n cael ei yrru gan ystod o ffactorau gwahanol sy'n torri ar draws ei gilydd. Golyga hyn y dylid gochel rhag trafod allfudo, neu ddatblygu ymyraethau polisi sy'n ceisio ymateb iddo, gan dybio bod modd canolbwyntio ar un neu ddau ffactor allweddol. Yn benodol, dylid gochel rhag trin allfudo fel ffenomen sydd ond yn ymwneud ag ystyriaethau economaidd fel swyddi, gyrfa a chyflog.

- **Ffactorau sy'n dylanwadu ar fudo dychweliadol (tt. 12-13):** Fel yn achos allfudo, mae ymchwil academaidd hefyd yn dangos y gall ystod o ffactorau gwahanol ddylanwadu benderfyniadau i fudo yn ôl i ardal wledig. Eto, mae'r ymchwil hwn dangos bod penderfyniadau o'r fath yn aml yn cael eu llywio gan fwy na dim ond ystyriaethau economaidd, a bod ystyriaethau teuluol ynghyd â'r syniad cyffredinol o 'setlo i lawr' yn medru bod yn flaenllaw. Ymhellach, mae'r ymchwil yn dangos bod mudo dychweliadol yn ystyriaeth a ddaw'n fwy blaenllaw ar adegau penodol mewn bywyd, ac y dylid trin y30au cynnar fel cyfnod arbennig o arwyddocaol.

- **Rhoi sylw haeddiannol i gymhellion 'arhoswyr' (tt.14-15):** Deall cymhellion y bobl ifanc sy'n penderfynu allfudo neu gymhellion y sawl sy'n penderfynu dychwelyd sydd fel arfer yn hawlio'r sylw mewn gwaith ymchwil academaidd a thrafodaethau polisi. Fodd bynnag, dylid hefyd rhoi sylw neilltuol i'r 'arhoswyr' fel rhan o drafodaethau ynglŷn â dyfodol cymdeithasau gwledig. Wrth wneud hyn, dylid gochel rhag darlunio 'arhoswyr' fel grŵp sydd naill ai wedi 'methu' neu 'wedi'u gadael ar ôl' a dylid cloriannu y graddau bod rhaglenni polisi cyfredol mewn meysydd megis addysg, sgiliau neu ddatblygu economaidd yn cyfrannu at gymell argraff o'r fath. Rhaid hefyd cydnabod nad rhywbeth sy'n digwydd unwaith yw'r penderfyniad i aros, ond yn hytrach proses all gael ei ailadrodd ar sawl achlysur yn ystod cwrs bywyd unigolyn a hynny o dan amgylchiadau gwahanol.

# ARFOR, allfudo a’r Gymraeg

## 1. Cyflwyniad

1.1 Bwriad yr adroddiad hwn yw crynhoi prif gasgliadau dau weithdy ymchwil ar bwnc allfudo a gynhaliwyd yn ystod mis Tachwedd 2023. Trefnwyd y gweithdai gan Ganolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth a chwmni ymchwil Wavehill, a hynny fel rhan o raglen waith tendr ymchwil 18 mis sydd â’r nod o adolygu a gwerthuso gwaith rhaglen ARFOR II.

1.2 Mae Rhaglen ARFOR yn dwyn ynghyd awdurdodau lleol Gwynedd, Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin i ddatblygu cynlluniau sydd â’r nod o hybu datblygiad economaidd ar draws siroedd y gorllewin, a thrwy hynny, rhoi hwb i ragolygon yr iaith Gymraeg. Cafodd ei sefydlu yn 2019, yn dilyn buddsoddiad cychwynnol o £2 filiwn gan Lywodraeth Cymru. Ym mis Hydref 2022 daeth cadarnhad bod y Llywodraeth yn bwriadu darparu £11 miliwn pellach er mwyn ariannu ail wedd Arfor a fydd yn rhedeg hyd mis Mawrth 2025.

1.3 Teitl y gweithdy cyntaf oedd **‘ARFOR, allfudo a’r Gymraeg’.** Nod y digwyddiad oedd trafod ymchwil cyfoes o Gymru ar bwnc allfudo ac ystyried ei berthnasedd i waith rhaglen ARFOR II. Cafwyd cyflwyniadau gan Dr Huw Lloyd-Williams (Wavehill), yr Athro Mike Woods (Prifysgol Aberystwyth), Elen Bonner (Prifysgol Bangor) a’r Dr Lowri Cunnington Wynn (Prifysgol Aberystwyth).

1.4 Teitl yr ail weithdy oedd ‘ **Aros, allfudo neu ddychwelyd? Gosod y profiad Cymreig mewn cyd-destun cymharol’.** Bwriad y gweithdy hwn oedd ehangu gorwelion gan drafod ymchwil sydd wedi astudio allfudo mewn ystod o gyd-destunau Ewropeaidd eraill. O ganlyniad cafwyd cyflwyniadau gan Dr Caitríona Ni Laoire (Coleg Prifysgol Corc), Dr Rosie Alexander (Prifysgol Gorllewin yr Alban), yr Athro Tialda Haartsen (Prifysgol Groningen, yr Iseldiroedd) a’r Dr Annett Steinfuhrer (Sefydliad Materion Gwledig Thünen, yr Almaen).

1.5 Mae'r adroddiad yn crynhoi prif elfennau'r drafodaeth a gafwyd yn ystod y ddau weithdy, gan gyfeirio at gynnwys y cyflwyniadau ymchwil a draddodwyd, a hefyd y cwestiynau a'r sylwadau a gododd yn ystod y cyfnodau trafod dilynol. Trefnwyd yr adroddiad ar sail thematig, ac mae'n tynnu sylw at gyfres o themâu allweddol a gododd yn ystod y gweithdai ac mae'r adrannau sy'n dilyn yn canolbwyntio ar ddeunydd sy'n berthnasol i'r themâu canlynol:

- Deall allfudo a mudo dychweliadol: ystyriaethau cyffredinol
- Tystiolaeth o agweddau pobl ifanc ynglŷn â bywyd yng nghefn gwlad Cymru
- Creu teipolegau o agweddau pobl ifanc o Gymru ynglŷn â mudo
- Ffactorau sy’n cymell allfudo
- Ffactorau sy’n dylanwadu ar fudo dychweliadol
- Deall cymhellion y sawl sy’n ‘aros’

## 2. Deall allfudo a mudo dychweliadol: ystyriaethau cyffredinol

2.1 Yn ystod y gweithdai codwyd nifer o bwyntiau cyffredinol a oedd yn ymwneud â sut ddylid deall a dehongli gwahanol dueddiadau mudo, boed hynny'n ymwneud ag allfudo o ardaloedd gwledig neu fudo dychweliadol. Roedd ystod o'r pwyntiau hyn yn rhai a oedd yn meddu ar oblygiadau ymarferol pwysig i lunwyr polisi

2.2 I ddechrau, yn ei chyflwyniad hi eglurodd Tialda Haartsen bod tuedd mewn ymchwil academaidd i ddefnyddio modelau cwrs bywyd er mwyn deall penderfyniadau mudo gwahanol unigolion. Eglurodd mai rhai o'r prif elfennau o'n bywyd sy'n cael eu hystyried fel rhan o fodelau fel hyn yw:

- **Llwybr gyrfa:** wrth aeddfedu bydd pobl yn symud trwy gyfnodau megis: disgybl ysgol; myfyriwr coleg/prifysgol; swydd; newid swydd; dyrchafiad; ymddeol.
- **Strwythur aelwyd:** wrth aeddfedu bydd pobl yn symud trwy gyfnodau megis: plentyn sy'n byw gyda'i rhieni; oedolyn ifanc sy'n byw ar ben ei hun neu gyda ffrindiau; cyd-fyw â phartner; priodi; cael plant a magu teulu; ysgaru.
- **Statws cartref:** dibynnol ar eraill; symud o'r cartref teuluol; llety coleg/prifysgol; rhentu; prynu tŷ; symud i dŷ mwy.

Mae rhain oll yn elfennau lle byddwn yn profi ystod o sefyllfaoedd gwahanol yn ystod cwrs ein bywyd ac mae penderfyniadau ynglŷn a ble rydym yn dewis byw yn medru codi wrth symud o un sefyllfa bywyd i'r llall.

2.3 Ychwanegodd Haartsen bod ymchwil yn y maes wedi tueddu i bwysleisio tri chyfnod bywyd fel rhai sy'n arbennig o arwyddocaol o safbwynt tueddiadau mudo – dyma gyfnodau lle bo cyfuniad o ffactorau yn golygu bod symud i ardaloedd newydd tueddu i fod yn ystyriaeth mwy blaenllaw i nifer o bobl:

- **Cyfnod oedolyn ifanc** (o'r arddegau hwyr i'r ugeiniau cynnar): cyfnod gadael ysgol, dewis prifysgol, gadael cartref a sefydlu cyfeillion oes.
- **Cyfnod ffurfio teulu** (o'r ugeiniau hwyr i'r pedwardegau cynnar): cyfnod o ganfod partner ac efallai priodi, cael plant a magu teulu, sefydlu gyrfa – cyfnod o 'setlo i lawr'.
- **Cyfnod ymddeol** (o'r pumdegau hwyr i'r saithdegau canol): cyfnod o orffen gweithio ac ystyried ein sefyllfa ar gyfer gweddill ein oes.

Yn arwyddocaol gwelwyd perthnasedd ymarferol y model cwrs bywyd fel dull o ddeall tueddiadau mudo yn codi ar sawl achlysur yn ystod trafodaethau'r gweithdai ac yn enwedig wrth ystyried y cyfuniad o ffactorau sy'n medru cymell mudo dychweliadol (gweler Adran 6).

2.4 Yn ail, tynnodd Annett Steinführer sylw at faterion diffiniadol pwysig sydd angen eu hystyried wrth drafod mudo dychweliadol. Eglurodd bod angen gochel rhag trin dychwelyd i ardal wledig fel un categori cyffredinol gan bod gwahanol lefelau o ddychwelyd yn bosib a bod arwyddocâd y gwahanol symudiadau hyn yn medru

amrywio. Cyflwynodd deipoleg a oedd yn rhannu enghreifftiau o fudo dychweliadol yn bedwar categori gwahanol:

- Dychwelyd i ardal wledig
- Dychwelyd i'r sir neu'r rhanbarth enedigol
- Dychwelyd i'r dref neu'r pentref genedigol
- Dychwelyd i'r cartref teuluol

2.5 Aeth Steinführer ymlaen i egluro bod yr un math o ystyriaethau hefyd yn berthnasol wrth drafod y sawl sy'n dewis aros i fyw a gweithio mewn ardaloedd gwledig. Unwaith eto mae angen gochel rhag trin y sawl sy'n aros fel un categori cyffredinol gan fod gwahanol lefelau o aros yn bosib hefyd:

- Aros mewn ardal wledig
- Aros yn y sir neu'r rhanbarth enedigol
- Aros yn y dref neu'r pentref genedigol
- Aros yn y cartref teuluol

2.6 Yn drydydd, yn ystod ei dadleuodd Caitríona Ni Laoire a Rosie Alexander bod angen gochel rhag trafod tueddiadau mudo pobl ifanc fel rhaniad deuaidd pendant rhwng 'aros' neu 'adael'. Mewn oes mwyfwy symudol bydd y darlun yn aml yn un tipyn mwy cymhleth. Er enghraifft, ni fydd y sawl sy'n aros ar ôl gadael ysgol neu'r coleg o anghenraid yn aros am weddill eu hoes. Yn ogystal, ni fydd y sawl sy'n gadael – boed i fynd i'r brifysgol, canfod swydd ayb. – o anghenraid yn aros i ffwrdd am byth. Ymhellach, os fydd rhai o'r garfan olaf yma'n dychwelyd maes o law, ni ellir cymryd yn ganiatаol y bydd hynny'n barhaol. Yn gyffredinol, wrth ddatblygu ymyraethau sydd ceisio ymateb i allfudo gwledig mae angen bod yn ymwybodol o'r tueddiadau hyn.

## 3 Tystiolaeth o agweddau pobl ifanc ynglŷn â bywyd yng nghefn gwlad Cymru

3.1 Yn ystod y gweithdy cyntaf amlinellodd Mike Woods rhai o brif ganfyddiadau arolwg o agweddau pobl ifanc rhwng 14 a 25 oed sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2021, gyda chyfranogwyr wedi'u recriwtio drwy ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol. Derbyniwyd cyfanswm o 1056 o ymatebion. Ceir amlinelliad manwl o ganlyniadau'r arolwg yn yr adroddiad Pobl Ifanc yng Nghefn Gwlad Cymru gan Mike Woods a Patrick Utz (2022).

3.2 Mae'r canlynol ymhlith rhai o'r prif ganfyddiadau sy'n deillio o ddata cyffredinol (cyfanredol) yr arolwg:

- Mae 75% o bobl ifanc yn mwynhau byw yng nghefn gwlad Cymru.
- Dim ond 22% o bobl ifanc sy'n cytuno bod y cyfleoedd cyflogaeth yn eu hardal leol yn dda ac mae 61% yn poeni am fedru dod o hyd i swydd addas.
- Mae 59% o bobl ifanc yn poeni am fedru fforddio prynu tŷ yn eu hardal leol.
- Dim ond 26% o bobl ifanc sy'n cytuno bod gwasanaethau cyhoeddus yn eu hardal leol yn diwallu eu hanghenion.

- Dim ond 27% o bobl ifanc sy’n cytuno bod y cyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol yn eu hardal leol yn dda.
- Cred 81% o bobl ifanc y bydd angen iddynt symud o’u hardal leol i gael addysg, hyfforddiant neu waith.
- Dim ond 18% o bobl ifanc oedd yn rhagweld y byddant yn parhau i fyw yn eu hardal leol dros y pum mlynedd nesaf; mae 42% yn disgwyl symud tu allan i Gymru yn ystod y cyfnod hwn.

3.3 O safbwynt amcanion rhaglen ARFOR, mae hi’n arwyddocaol bod dadansoddiad manwl o ganlyniadau’r arolwg yn awgrymu bod iaith yn ffactor sy’n medru llywio agweddau pobl ifanc tuag at y syniad o fyw mewn ardaloedd mwy gwledig o Gymru.

3.4 Yn ôl yr arolwg mae siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn tueddu i fod yn fwy cadarnhaol na’r bobl ifanc yn eu cyfanrwydd ynghylch bywyd yn eu hardal wledig, yn enwedig ynghylch gwasanaethau cyhoeddus a chyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol, ac maent yn fwy tebygol o fod eisiau parhau i fyw yn eu hardal leol neu ddychwelyd yno petaent yn symud i ffwrdd. Tuedda pobl ifanc nad ydynt yn siarad Cymraeg i fod yn fwy anfodlon ynglŷn â’r cyfleoedd cymdeithasol, diwylliannol a chyflogaeth sydd ar gael yng nghefn gwlad Cymru. Yn ogystal, maent yn llai tebygol o fod eisiau dychwelyd i’w hardal leol pe baent yn symud i ffwrdd.

3.5 Mae canlyniadau’r arolwg hefyd yn awgrymu y ceir gwahaniaeth amlwg rhwng barn a disgwyliadau siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf o’u cymharu a siaradwyr rhugl a ddysgodd yr iaith yn yr ysgol, yn enwedig mewn perthynas â chyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol a chyfleoedd cyflogaeth yn eu hardal wledig. Nododd Woods bod hyn yn awgrymu bod natur ymlyniad person at y Gymraeg (e.e. hunaniaeth ddiwylliannol neu gyfrwng iaith y teulu) yn fwy arwyddocaol na dim ond y gallu sylfaenol i ddefnyddio’r iaith.

3.6 Er bod yr arolwg yn awgrymu bod siaradwyr Cymraeg yn tueddu i fod yn fwy cadarnhaol ynglŷn a bywyd mewn ardal wledig, dylid nodi bod y rhan fwyaf o ymatebwyr oedd yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn meddwl y bydd angen iddynt symud o’u hardal leol i gael gwaith cyflogedig, addysg neu rywle i fyw, gyda thraean ohonynt yn rhagweld y byddant yn symud tu allan i Gymru yn ystod y pum mlynedd nesaf.

3.7 Nodwedd drawiadol arall o ganlyniadau’r arolwg oedd y ffaith bod merched ifanc yn tueddu i fod yn fwy anfodlon na dynion ifanc ynglŷn â’r cyfleoedd cyflogaeth neu’r cyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol sydd ar gael yn eu hardal leol, ac ychydig yn fwy tebygol o ystyried y bydd angen iddynt symud i ffwrdd ar gyfer addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Yn arwyddocaol roedd y canfyddiad hwn o waith ymchwil Mike Woods yn ategu thema a gododd fel rhan o ymchwil cynt Caitríona Ni Laoire ar dueddiadau allfudo a dychwelyd yng ngorllewin Iwerddon yn ystod degawd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain. Yn yr achos hwnnw hefyd roedd tystiolaeth bod y dyhead i symud i ffwrdd, ar y cyfan, yn gryfach ymhlith merched na bechgyn.

## 4 Creu teipolegau o agweddau pobl ifanc o Gymru ynglŷn â mudo

4.1 Yn ystod y gweithdy cyntaf, cyflwynwyd ffyrdd o fynd ati i rannu pobl ifanc o Gymru yn gategorïau gwahanol ar sail eu hagweddau neu ddisgwyliadau ynghylch mudo ac awgrymwyd y gellid defnyddio'r teipolegau hyn i gefnogi ymyraethau polisi sy'n ceisio ymateb i allfudo.

4.2 Eglurodd Mike Woods bod dadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg uchod o agweddau pobl ifanc rhwng 14 a 25 oed wedi arwain at rannu pobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru yn dri grŵp gwahanol:

- **Arhoswyr Tebygol:** Dyma grŵp sy'n dymuno parhau i fyw yn eu hardal leol drwy gydol eu bywyd ac sy'n llai tebygol o deimlo y bydd angen iddynt symud i ffwrdd i gael addysg, gwaith neu ganfod rhywle i fyw. Roedd y garfan hon yn cynrychioli tua un ym mhob deg o'r bobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg. Ymhellach, mewn cymhariaeth â holl ymatebwyr yr arolwg roedd nifer anghymesur i fechgyn neu ddynion ifanc yn y garfan hon ac roeddent tua dwywaith yn fwy tebygol o fod mewn gwaith yn hytrach nag mewn addysg.

- **Ymadawyr awyddus:** Dyma grŵp sy'n glir eu bod yn dymuno gadael eu hardal leol, gyda dau o bob tri ohonynt yn awyddus i symud i fyw mewn tref fawr neu ddinas. Roedd y garfan hon yn cynrychioli tua hanner y bobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg. Mewn cymhariaeth â holl ymatebwyr yr arolwg, roedd myfyrwyr ysgol neu goleg wedi'u gorgynrychioli yn y grŵp hwn, ond, yn arwyddocaol, roedd siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf wedi'u tangynrychioli. Roedd tua thraean o'r grŵp yn dymuno gadael eu hardal leol yn barhaol, ond roedd y rhan fwyaf yn barod i ystyried symud yn ôl yn maes o law, gan gynnwys tua thraean a oedd wedi mynegi dyhead penodol i wneud hynny.

- **Arhoswyr posib:** Dyma grŵp a fyddai'n ffafrio aros i fyw yn eu hardal leol ond sy'n credu y bydd angen iddynt symud i ffwrdd i gael addysg, gwaith neu ganfod rhywle i fyw. Roedd rhai o'r garfan hon yn rhagweld y byddent yn aros yn eu hardal leol yn y tymor byr, ond roedd y rhan fwyaf yn tybio y byddant wedi gadael o fewn y pum mlynedd nesaf. Fodd bynnag roedd bron y cyfan ohonynt yn gobeithio medru dychwelyd i'w hardal leol yn hwyrach yn ystod eu bywyd. Roedd mwy na dau o bob pump o holl ymatebwyr yr arolwg yn perthyn i grŵp yr 'arhoswyr posib' ac mewn cymhariaeth â'r sampl cyfan roedd siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ynghyd ag unigolion sydd mewn gwaith wedi'u gorgynrychioli.

4.3 O ran ymyraethau polisi sy'n ceisio ymateb i allfudo yng Nghymru, dadleuodd Mike Woods bod y sawl sy'n perthyn i'r grŵp 'arhoswyr posib' yn garfan allweddol i'w targedu. Os oedd sampl yr arolwg yn gymharol gynrychioladol o bobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru yn gyffredinol, eglurodd y gellir amcangyfrif bod cyfanswm o ryw 41,000 o bobl ifanc y gellir eu diffinio fel 'arhoswyr posib'. Ymhellach dadleuodd bod maint y grŵp hwn yn awgrymu bod carfan sylweddol o bobl ifanc fyddai'n barod i ystyried aros yn eu hardal leol neu i ddychwelyd yno maes o law pe bai amodau priodol yn cael eu

creu. Ceir trafodaeth bellach o oblygiadau'r ddadl hon yn yr adroddiad Pobl Ifanc yng Nghefn Gwlad Cymru gan Mike Woods a Patrick Utz (2022).

4.4 Mewn cyflwyniad arall eglurodd Elen Bonner mai un o amcanion ei gwaith ymchwil doethuriaethol fu datblygu teipoleg allai helpu i ddadansoddi a deall penderfyniadau mudo siaradwyr Cymraeg ifanc. Seiliwyd y gwaith ymchwil hwn ar gyfweliadau manwl â 60 o siaradwyr Cymraeg 18-40 mlwydd oed a gafodd eu magu yng Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn (15 o bob sir). O'r sampl hwn roedd rhai wedi penderfynu aros yn eu hardal enedigol (12), rhai wedi gadael (25) a rhai wedi penderfynu ddychwelyd ar ôl cyfnod yn byw rhywle arall (23).

4.5 Trwy ddadansoddi'r data a ddeilliodd o'r cyfweliadau ymchwil, eglurodd Elen Bonner bod modd rhannu'r tri grŵp oedd yn rhan o'i sampl – yr arhoswyr, yr ymadawyr a'r dychwelwyr – yn gyfres o gategorïau gwahanol a bod hyn yn helpu i gyfleu y gwahanol fathau o ffactorau sy'n medru dylanwadu ar benderfyniadau pobl naill ai i aros yn yr ardal enedigol, i symud i ffwrdd, neu i ddychwelyd maes o law – ond hefyd y modd y mae gwahanol fathau o ystyriaethau yn medru bod yn flaenllaw i wahanol unigolion.

| **Yr Aroswyr** | **Yr Ymadawyr** | **Y Dychwelwyr** |
|---|---|---|
| Y Gwreiddiedig | Y Cosmopolitaidd | Y Bregus |
| Y Ffyddlon | Y Dinaswyr | Y Pragmatig |
| Y Strategol | Y Cyndyn | Y Dychwelwyr Magu Teulu |
| Y Difater | Y Crwydrwyr | Y Manteiswyr |
| Y Rhwystredig | Yr Addysg-uchelgeisiol | Yr Hiraethus |
| Yr Ansicr | Y Gyrfawyr | Y Cadwyr-cyswllt |
| | Yr Unig | |
| | Y Trawsblanedig | |
| | Yr Ymfudwyr Dedwydd | |
| | Y Dylanwadol | |

4.6 Mae'r teipoleg hwn yn datblygu ar fersiwn cynharach a gyflwynwyd gan Gordon B. Cooke a Bui K. Petersen (2019) ar sail ymchwil ymhlith pobl ifanc a fagwyd ar ynysoedd gwledig yn Iwerddon, Newfoundland, Ynysoedd y Faroe a Shetland. Eglurodd Elen Bonner mai un o'i hamcanion wrth fireinio ac addasu'r deipoleg ar sail ei hymchwil hi oedd sicrhau ei fod yn ymateb yn well i'r modd y gallai ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ddylanwadu ar benderfyniadau mudo pobl a fagwyd yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd neu Ynys Môn. Yn hyn o beth, roedd hi'n arwyddocaol fod y Gymraeg yn elfen sy'n ymddangos yn bwysig i rai grwpiau yn ei theipoleg – e.e. 'Y Gwreiddiedig' a'r 'Dychwelwyr Magu Teulu'. Fodd bynnag, pwysleisiodd nad oedd y Gymraeg yn ystyriaeth flaenllaw i bawb, er bod pawb yn y sampl yn medru'r iaith.

## 5. Ffactorau sy'n cymell allfudo

5.1 Yn ôl y disgwyl cynigiodd amryw o gyflwyniadau'r gweithdai ddadansoddiad o'r ffactorau hynny sy'n medru dylanwadu naill ai benderfyniadau i symud i ffwrdd o ardaloedd gwledig neu ar benderfyniadau i symud yn ôl. Rhoddir sylw yn yr adran hon

i'r trafodaethau a ganolbwyntiodd yn bennaf ar y ffactorau sy'n medru cymell allfudo, cyn troi i drafod mudo dychweliadol yn yr adran nesaf.

5.2 Casgliad cyffredinol allweddol a bwysleisiwyd gan nifer o'r cyfranwyr oedd bod allfudo ymhlith pobl ifanc yn ffenomen sy'n cael ei yrru gan ystod o ffactorau gwahanol sy'n torri ar draws ei gilydd. Golyga hyn y dylid gochel rhag trafod allfudo, neu ddatblygu ymyraethau polisi sy'n ceisio ymateb iddo, gan dybio bod modd canolbwyntio ar un neu ddau ffactor allweddol.

5.3 Casgliad pwysig arall sy'n dilyn o'r pwynt uchod oedd y dylid gochel rhag trin allfudo fel ffenomen sydd wastad yn cael ei yrru gan ystyriaethau economaidd sy'n ymwneud â swyddi, gyrfa a chyflog. Roedd hwn yn gasgliad allweddol yng ngwaith ymchwil Elen Bonner a Lowri Cunnington Wynn – dwy sydd wedi cynnal astudiaethau ansoddol i ddadansoddi'r ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau mudo siaradwyr Cymraeg. Yn ôl Elen Bonner, bydd ffactorau economaidd yn ystyriaeth bwysig i rai unigolion, ond i eraill bydd ystyriaethau cymdeithasol ehangach yn fwy dylanwadol. Eglurodd Lowri Cunnington Wynn bod canfyddiadau ei hymchwil hi yn awgrymu bod dewisiadau pobl ifanc yn dibynnu'n sylweddol ar eu hymdeimlad o berthyn i'w hardal enedigol.

5.4 Ategwyd y canfyddiad uchod o Gymru gan ymchwil Rosie Alexander, sydd wedi astudio penderfyniadau allfudo pobl ifanc a fagwyd ar ynysoedd Orkney a Shetland yng ngogledd yr Alban. Unwaith eto pwysleisiwyd y dylid gochel rhag gorsymleiddio ein dealltwriaeth o allfudo trwy ei drin fel ffenomen sy'n ymwneud yn bennaf â swyddi a chyfleoedd gyrfa. Eglurodd Rosie Alexander bod ymchwil yn y maes yn awgrymu bod y cyswllt rhwng addysg uwch ac allfudo yn aml yn fwy arwyddocaol nag yw'r cyswllt ag argaeledd swyddi. Ymhellach, eglurodd bod ei hymchwil doethuriaethol hi gyda phobl ifanc o ynysoedd gogleddol yr Alban wedi ategu'r casgliad hwn – h.y. bod y dewis o gwrs prifysgol yn ymddangos fel dylanwad mwy blaenllaw na swydd ar adeg y penderfyniad gwreiddiol i symud i ffwrdd. I gyfleu'r pwynt hwn, tynnodd sylw at y modd y byddai nifer o'r cyfwelai ifanc yn ei sampl ymchwil yn tueddu i ddefnyddio ymadroddion fel 'symud i ffwrdd' a 'symud i'r brifysgol' am yn ail, fel pe baent yn gyfystyr i'w gilydd.

5.5 Ar drywydd ychydig yn wahanol, yn ystod ei chyflwyniad hi tynnodd Tialda Haartsen sylw at y modd y gall tybiaethau neu naratifau cymdeithasol cyffredinol ddylanwadu ar benderfyniadau mudo pobl ifanc cymaint â ffactorau materol neu amgylchiadol penodol megis cyfleoedd addysg, swyddi neu adnoddau hamdden. Cyfeiriodd at y modd y mae ymchwilwyr ym maes mudo ac astudiaethau ieuenctid wedi datblygu cysyniad penodol – y rheidrwydd mudol (the mobility imerrative) – i grisialu a mynegi'r modd y mae cymdeithasau cyfoes yn tueddu i gymryd yn ganiataol bod angen i bobl ifanc 'symud i ffwrdd' er mwyn bod yn llwyddiannus – h.y. bod symud i ardal ddinesig wrth aeddfedu yn gyfystyr a 'llwyddo' a bod aros yn yr ardal enedigol yn adlewyrchu 'methiant' neu 'ddiffyg uchelgais'.

## 6. Ffactorau sy'n dylanwadu ar fudo dychweliadol

6.1 Fel yn achos y trafodaethau a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar allfudo, casgliad allweddol a gododd wrth droi i drafod beth allai gymell mudo dychweliadol oedd yr angen i gydnabod ei fod yn broses all gael ei lywio gan ystod o ffactorau cymhleth.

6.2 Eglurodd Tialda Haartsen mai un o brif ganfyddiadau prosiect ymchwil o'i heiddo oedd yn canolbwyntio ar ddadansoddi beth sy'n cymell oedolion ifanc i ddychwelyd i fyw yn eu hardal enedigol oedd yr angen i gydnabod bod gydnabod y ceir gwahanol fathau o 'ddychwelwyr'. Seiliwyd y prosiect hwn ar astudiaeth o gymhellion 200 o bobl ifanc 18-30 oed o'r Iseldiroedd oedd wedi dychwelyd i fyw yn eu hardaloedd genedigol. Gwelwyd bod gwahanol fathau o gymhellion wedi bod yn arwyddocaol i wahanol grwpiau gyda rhain yn medru cael eu rhannu'n bedwar categori cyffredinol:

- **Ystyriaethau cymdeithasol:** bod dychwelyd yn ymwneud â bod yn agos i gylchoedd o ffrindiau penodol neu rwydweithiau cymdeithasol.
- **Ystyriaethau ymarferol:** bod dychwelyd yn ymwneud â manteisio ar gyfle cyflogaeth penodol.
- **Ystyriaethau teuluol:** bod dychwelyd yn ymwneud â chadw cyswllt â'r teulu, ac yn arbennig rhieni, naill ai er mwyn cael cymorth i fagu plant neu er mwyn cyflawni dyletswyddau gofal.
- **Ystyriaethau personol:** bod dychwelyd yn ymwneud â materion personol fel bod yn agos i bartner.

6.3 Ategwyd y pwyslais ar yr angen i ochel rhag gorsymleiddio ein dealltwriaeth o fudo dychweliadol gan Caitríona Ni Laoire, sydd wedi ymgymryd ag ymchwil manwl yn dadansoddi cymhellion y sawl a dychwelodd i ardaloedd gwledig gorllewin Iwerddon yn ystod degawd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain. Eglurodd bod yr ymchwil hwn wedi canolbwyntio ar ddeall y math o naratifau personol a ddatblygwyd gan y bobl hyn i egluro eu penderfyniadau i ddychwelyd.

6.4 Tra'n cydnabod yr amrywiaeth o ffactorau a gododd fel rhan o'r ymchwil hwn, eglurodd Caitríona Ni Laoire mai un thema amlwg yn hanesion nifer sylweddol o'i chyfwelai oedd arwyddocâd y syniad o ddychwelyd i'r gorllewin er mwyn 'setlo i lawr' – hynny yw bod rhywun wedi cyrraedd pwynt lle'i fod yn barod i newid byd ac ystyried math gwahanol o fywyd. Fel arfer, cai hyn ei gysylltu â phethau fel bod mewn perthynas sefydlog, wedi priodi neu fod wedi dechrau magu plant. Yn sgil hynny, gellir deall pam fod llawer o gyfwelai Ni Laoire hefyd wedi egluro a chyfiawnhau eu penderfyniad i ddychwelyd fel mater o sicrhau cyswllt agos gyda rhieni a theulu, gydag ystyriaethau fel cymorth i fagu'r plant yn aml yn flaenllaw fel rhan o hyn. Ar adegau eraill eglurodd Ni Laoire y byddai'r syniad cyffredinol o ddychwelyd i'r gorllewin er mwyn 'setlo' yn cael ei gysylltu a phethau fel manteisio ar y cyfle i adeiladu cartref delfrydol, yn aml ar sail cyfalaf a gynilwyd tra'n gweithio rhywle arall.

6.5 Yn arwyddocaol, cododd y syniad o ddychwelyd er mwyn 'setlo i lawr' fel thema bwysig yn ymchwil Rosie Alexander hefyd. Yn yr achos hwn, gwelwyd bod rhai o'r bobl ifanc a oedd wedi mudo o ynysoedd Orkney a Shetland er mwyn mynd i'r brifysgol yn rhagweld

y byddent yn barod i ystyried symud yn ôl adref pan fyddent yn barod i 'setlo', a bod hynny fel arfer yn cael ei gysylltu a bod mewn perthynas sefydlog a chael plant. Nododd Rosie Alexander, mai ffordd arall o ddehongli'r math yma o sylwadau oedd bod y bobl ifanc yn awgrymu y byddent yn barod i ystyried dychwelyd unwaith eu bod yn teimlo eu bod wedi cael digon o brofiad o fywyd mewn lleoliadau eraill.

6.6 Tanlinellir arwyddocâd y syniad cyffredinol o 'setlo i lawr' fel rhan o'r cyfuniad o ffactorau sy'n medru cymell penderfyniad i ddychwelyd i ardal enedigol gan y ffaith bod ymchwil hefyd yn awgrymu bod y 30au cynnar yn gyfnod lle bo pobl yn fwy tebygol o ystyried newid o'r fath. Roedd hyn yn gasgliad a nodwyd gan Annett Steinführer ar sail ei hymchwil i batrymau allfudo a dychwelyd yn rhanbarth Hartz yn nhalaith Sacsoni Isaf yn yr Almaen. Yn yr un modd, dangosodd ymchwil Caitríona Ni Laoire yn Iwerddon bod y tridegau cynnar yn gyfnod arbennig o arwyddocaol o safbwynt ystyried dychwelyd i ardaloedd gwledig. Yn wir, eglurodd Ni Laoire bod ei hymchwil hi nid yn unig yn awgrymu grwpiau iau yn llai tebygol o fod yn barod i ystyried dychwelyd, ond hefyd bod y rhai sydd yn gwneud hynny – e.e. yn eu ugeiniau cynnar – yn llai tebygol o weld y symudiad fel un parhaol. O ganlyniad, awgrymwyd mai nid y grŵp hwn ddylid eu blaenoriaethu wrth geisio cynllunio ymyraethau polisi sy'n ceisio ymateb i allfudo.

6.7 Yn gyffredinol, mae ymchwil fel hyn sy'n dangos bod mudo dychweliadol yn ystyriaeth a ddaw'n fwy blaenllaw ar adegau penodol mewn bywyd yn dangos pam y gallai fod yn fuddiol defnyddio modelau cwrs bywyd (gweler Adran 1) fel canllaw wrth geisio datblygu ymyraethau polisi sy'n ceisio ymateb i allfudo.

6.8 Fel rhan o'i chyflwyniad rhoddodd Caitríona Ni Laoire sylw hefyd i'r graddau y dylid blaenoriaethu ystyriaethau economaidd sy'n ymwneud â swyddi, gyrfa a chyflog wrth drafod pa ffactorau allai gymell mudo dychweliadol. O safbwynt blaenoriaethau rhaglen ARFOR, roedd hi'n arwyddocaol bod canfyddiadau ei hymchwil yn Iwerddon yn awgrymu y dylid gochel rhag trin y math hyn o ffactorau fel y dylanwad pennaf ar benderfyniadau'r sawl a ddychwelodd i'r gorllewin. Eglurodd bod ffactorau eraill – yn enwedig rhai a oedd yn ymwneud â bywyd teuluol, creu cartref a gosod gwreiddiau – yn tueddu i gael lle mwy blaenllaw yn y modd roedd ei chyfwelai yn cyflwyno eu penderfyniadau i ddychwelyd. Pwysleisiodd nad oedd ffactorau economaidd yn amherthnasol yn hyn o beth, ond eu bod yn ymddangos mwy fel ystyriaethau cefndirol. Er enghraifft, eglurodd bod diwedd y 1990au a dechrau'r unfed ganrif ar hugain yn gyfnod o lewyrch economaidd yn Iwerddon – cyfnod y Teigr Celtaidd – ac un o sgil effeithiau hyn oedd creu ymdeimlad o obaith a chyfle. Roedd hyn yn gyd-destun a oedd yn golygu bod dychwelyd i'r gorllewin yn medru ymddangos yn fwy ymarferol i lawer, ond nid oedd y penderfyniad i wneud hynny yn gorfod bod yn gysylltiedig ag argaeledd swydd benodol.

6.9 Ar sail y canfyddiadau ymchwil uchod nododd Caitríona Ni Laoire ei bod yn arwyddocaol bod arfarniadau cynt o weithrediad rhaglen ARFOR wedi tynnu sylw at yr ystod o ffactorau, ar wahân i swyddi, sy'n medru dylanwadu ar dueddiadau allfudo a dychwelyd. Eglurodd ei bod o'r farn y dylid adlewyrchu ymhellach ar hyn ac y dylid gochel rhag dibynnu'n ormodol ar strategaeth sy'n ceisio ymateb i allfudo trwy ganolbwyntio'n unig ar fenter a chreu mwy a gwell swyddi.

## 7. Rhoi sylw haeddiannol i gymhellion y sawl sy'n aros

7.1 Yn ystod yr ail weithdy amlinellodd Annett Steinführer amcanion y prosiect ymchwil STAYin(g)Rural – prosiect cyfredol sy'n seiliedig ar gydweithio rhwng Prifysgol Queens Belfast, Prifysgol Groningen a Sefydliad Materion Gwledig Thünen. Eglurodd bod ymchwil academaidd mewn meysydd megis daearyddiaeth, ond hefyd trafodaethau polisi, wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddeall a dadansoddi'r ffactorau sy'n cymell penderfyniadau i allfudo o ardaloedd gwledig neu benderfyniadau i ddychwelyd. O ganlyniad, yn ôl Steinführer bu tuedd i anwybyddu'r sawl sy'n penderfynu aros – caiff y grŵp hwn ei drin fel 'categori gweddilliol' ac nid yw eu cymhellion, dyheadau neu flaenoriaethau wedi derbyn yr un sylw. Amcan prosiect STAYin(g)Rural yw unioni'r cam hwn, gan ganolbwyntio'n benodol ar 'arhoswyr gwledig' fel grŵp neilltuol gan gyfrannu at ddatblygu gwell dealltwriaeth o *sut* a *pham* fod pobl yn penderfynu *aros* mewn ardal wledig.

7.2 Wrth drafod ffrwyth ymchwil STAYin(g)Rural hyd yn hyn, nododd Annett Steinführer ddau bwynt sy'n arbennig o berthnasol o ystyried amcanion rhaglen ARFOR. I ddechrau, dadleuodd bod rhoi sylw neilltuol i'r 'arhoswyr' fel rhan o drafodaethau ynglŷn a dyfodol cymdeithasau gwledig yn allweddol gan fod angen gochel rhag darlunio'r grŵp yma fel un sydd naill ai wedi 'methu' neu 'wedi'u gadael ar ôl'. Mae syniadau fel hyn eisoes wedi'u gwreiddio'n ddwfn mewn nifer o gymdeithasau cyfoes (gweler 5.5 uchod am drafodaeth bellach). Ond, dylid gochel rhag eu cadarnhau ymhellach trwy roi'r argraff mai'r unig flaenoriaeth yw atal *brain drain* trwy ddenu yn ôl y garfan 'ddawnus' neu 'fentrus' sydd wedi ymadael.

7.3 Yn ail, eglurodd Annett Steinführer y dylid gochel, rhag dehongli penderfyniad i aros mewn ardal wledig fel rhywbeth sy'n digwydd unwaith. Yn hytrach, dadleuodd Steinführer y dylid dehongli'r penderfyniad i aros fel rhywbeth a gaiff ei ailadrodd ar sawl achlysur yn ystod cwrs bywyd unigolyn a hynny o dan amgylchiadau gwahanol, er enghraifft pan yn symud o'r cartref teuluol, pan yn ystyried cwrs prifysgol, pan yn chwilio am waith, pan yn dechrau teulu, pan yn ymddeol ayb. O ganlyniad, gall y penderfyniad i aros mewn ardal wledig gael ei lywio gan ystod o ffactorau ar adegau gwahanol o'n bywyd.

7.4 Adleisiwyd pwyslais Annett Steinführer ar yr angen i roi sylw neilltuol i'r 'arhoswyr' fel rhan o drafodaethau ynglŷn a dyfodol cymdeithasau gwledig mewn cyflwyniadau eraill hefyd. Dadleuodd Lowri Cunnington Wynn y dylid gwneud mwy i wrthbwyso'r dybiaeth bod yr arhoswyr hyn yn garfan sydd 'wedi'u gadael ar ôl' trwy fframio'r penderfyniad i aros fel un bwriadus sy'n adlewyrchu ymlyniad at le neu gymuned benodol a dymuniad i gyfrannu at ei dyfodol. Seiliwyd y ddadl hon ar ganlyniadau arolwg o agweddau trigolion ardal Bro Ffestiniog a gynhaliwyd ar y cyd rhwng Chwmni Bro[1] a Phrifysgol Manceinion, ochr yn ochr ag ystyriaeth o waith ymchwil yr anthropolegydd o'r Eidal, Vito Teti, sydd wedi dehongli'r broses o aros i fyw mewn cymuned wledig trwy gyfrwng y syniad o *Restanza*, a ddiffiniwyd fel a ganlyn:

[1] Rhwydwaith o 14 o fentrau cymdeithasol ym Mro Ffestiniog. Mae'r Cwmni yn hwyluso cydweithrediad rhwng mentrau gydag elfennau o'r sectorau preifat a chyhoeddus sy'n ganolog i economi sylfaenol yr ardal.

> ‘The idea of “Restanza” implies both the verb *to stay* and the noun *resilience*. Restanza means choosing to stay in a place in a conscious, active and proactive way by actively guarding it, being aware of the past while enhancing what remains, with an impulse towards the future where a new community is possible’ (Gaudioso, 2021).

Dadleuodd Cunnington Wynn y byddai bod yn barod i ddehongli penderfyniadau i aros i fyw a gweithio mewn ardaloedd gwledig yn nhermau Restanza yn medru tynnu sylw at y modd bod penderfyniadau fel hyn yn aml yn adlewyrchu ystyriaethau dyfnach na dim ond swyddi neu lefelau cyflog. Os yw’r ymdeimlad o Restanza mewn ardal yn gryf, dadleuodd y dylai ymyraethau polisi sy’n ceisio cefnogi cymunedau gwledig gael ei seilo ar amcanion sy’n cwmpasu mwy na dim ond dyhead i godi lefelau GVA y pen. Dylid hefyd rhoi mwy o sylw i arwyddocâd ffactorau megis mynediad at wasanaethau sylfaenol a natur y seilwaith cymdeithasol sydd ar gael mewn ardal – ffactorau sy’n medru byd yr un mor bwysig ag incwm wrth gloriannu bodlonrwydd ac ansawdd bywyd mewn cymunedau gwledig.

## 8. Llyfryddiaeth dethol


Alexander, Rosie (2021). ‘Young people, out-migration and Scottish islands: surveying the landscape’ Yn Kathryn Burnett, Ray Burnett, a Mike Danson (goln), *Scotland and Islandness: Explorations in Community, Economy and Culture* (Rhydychen: Peter Lang), 143-168.

Cooke, Gordon B. a Petersen, Bui K. (2019). ‘A Typology of the Employment-Education-Location Challenges Facing Rural Island Youth’. *Island Studies Journal*, 14 (1): 101-124

Cunnington Wynn, Lowri (2019). 'Beth yw'r Ots Gennyf fi am Gymru? Astudiaeth o Allfudiaeth a Dyheadau Pobl Ifanc o’r Broydd Cymraeg', *Gwerddon*, 28 (13): 43-63.

Ferguson, Sara, Haartsen, Tialda, Steinführer, Annett, a Catney, Gemma (2023). The role of non-resident family ties in rural staying. *Population, Space and Place*.

Haartsen, Tialda a Thissen, Frans (2014). ‘The success–failure dichotomy revisited: young adults' motives to return to their rural home region’. *Children's Geographies*, 12 (1): 87-101

Mærsk, Eva, Thuesen, Annette Aagaard a Haartsen, Tialda (2023). ‘Symbolic mobility capital to fight the social stigma of staying: how young adults re-imagine narratives of ‘leaving’ during higher education’. *Journal of Youth Studies*, 26 (2): 153-169.

Ni Laoire, Caitríona (2007) 'The 'green green grass of home'? Return migration to rural Ireland'. *Journal of Rural Studies*, 23 :332-344.

Ni Laoire, Caitríona (2008). ‘'Settling back'? A biographical and life-course perspective on Ireland's recent return migration'. *Irish Geography*, 41 (2):195-210.

Woods, Mike a Utz, Patrick (2022). Pobl Ifanc yng Nghefn Gwlad Cymru. Aberystwyth: Prifysgol Aberystwyth.

Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru
Centre for Welsh Politics and Society

# ARFOR, allfudo a'r Gymraeg

11.00-15.30 dydd Gwener 3 Tachwedd 2023
Canolfan Medrus, Prifysgol Aberystwyth

**Rhaglen y gweithdy**

| | |
|---|---|
| 10.30-11.00 | Te a choffi |
| 11:00-11:05 | Croeso a chyflwyniad<br>Dr Huw Lewis, Prifysgol Aberystwyth |
| 11:05-11:30 | ARFOR ac allfudo: gosod y cyd-destun<br>Dr Huw Lloyd-Williams, Wavehill |
| 11:30-12:00 | Arolwg Pobl Ifanc a'r Gymru Wledig: canfyddiadau allweddol,<br>Yr Athro Mike Woods, Prifysgol Aberystwyth |
| 12:00-13:00 | Allfudo a'r Gymraeg: ymchwil diweddar<br><br>Teipoleg o'r hyn sy'n dylanwadu ar benderfyniadau siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â mudo, Elen Bonner, Prifysgol Bangor<br><br>Allfudiaeth a dyheadau pobl ifanc o gadarnleoedd y Gymraeg<br>Dr Lowri Cunnington-Wynn, Prifysgol Aberystwyth |
| 13:00-13:45 | Cinio |
| 13:45-14:45 | Trafodaethau grŵp: adnabod casgliadau i gefnogi ffrydiau gwaith ARFOR 2<br><br>Llwyddo'n Lleol<br><br>Cymunedau Mentrus<br><br>Cronfa Her ARFOR |
| 14:45-15:00: | Casgliadau a chloi |
| 15:00-15:30 | Te a choffi |

ARFOR
CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru
Centre for Welsh Politics and Society

# Aros, allfudo neu ddychwelyd?
# Gosod y profiad Cymreig mewn cyd-destun cymharol

12.30-14.30 (GMT) / 13.30-.15.30 CET
dydd Gwener 10 Tachwedd
Gweithdy ar-lein ar MS Teams

12.30-12.35 Croeso a chyflwyniadau, Dr Elin Royles, Prifysgol Aberystwyth

12.35-12.45 ARFOR ac allfudo: gosod y cyd-destun, Dr Huw Lewis, Prifysgol Aberystwyth

12.45-13.35 Profiadau rhai o'r gwledydd Celtaidd eraill:

- Dr Caitríona Ni Laoire, Coleg Prifysgol Corc
- Dr Rosie Alexander, Prifysgol Gorllewin yr Alban

13.30-13.40 Toriad byr

13.40-14.25 Profiadau Ewropeaidd eraill:

- Yr Athro Tialda Haartsen, Prifysgol Groningen, yr Iseldiroedd
- Dr Annett Steinfuhrer Sefydliad Materion Gwledig Thünen, Braunschweig

14.25-14.30 Sylwadau clo, Dr Elin Royles, Prifysgol Aberystwyth

ARFOR
CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd